# Cynllun Diogelu Myfyrwyr

2025 Fersiwn 1.0
Daw i rym: 2 Hydref 2025

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 2 Hydref 2025 | Amherthnasol | NEWYDD |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Cofrestrydd Academaidd | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 2 Hydref 2025 | Blynyddol |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Cynllun Diogelu Myfyrwyr

## Rhagarweiniad

1. Mae'r Cynllun Diogelu Myfyrwyr hwn yn amlinellu ymrwymiad Prifysgol Bangor i ddiogelu buddiannau myfyrwyr, cynnal ansawdd a safonau academaidd, diogelu cydraddoldeb a pharhau i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg rhag ofn y bydd newidiadau sylweddol i ddarpariaeth rhaglenni, strwythur rhaglenni, neu statws sefydliadol. Mae’r Cynllun yn cydymffurfio â’n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, fel y’i gorfodir gan MEDR (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil).

2. Mae'r Cynllun hwn yn berthnasol i holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor, gan gynnwys myfyrwyr sy'n astudio drwy ddarpariaeth gydweithredol, ar raglenni wedi eu dilysu neu raglenni wedi eu breinio a ddarperir gan sefydliadau partner yn y Deyrnas Unedig, partneriaethau addysg drawswladol (TNE) dramor, neu ar raglenni gradd ar y cyd neu raglenni gradd ddeuol.

3. I fyfyrwyr sy'n ymgymryd â rhaglen astudio gyda Phrifysgol Bangor ac sy'n dymuno trosglwyddo i raglen astudio arall naill ai ym Mhrifysgol Bangor neu gyda darparwr arall, mae cyngor ac arweiniad ar gael. https://www.bangor.ac.uk/studentservices/leaving/index.php.cy

## Goruchwyliaeth a Chydymffurfiaeth Reoleiddiol

4. Mae Prifysgol Bangor yn ddarparwr rheoleiddiedig o dan fframwaith addysg ôl-orfodol newydd Cymru. O dan reoliadau MEDR, rhaid i'r Brifysgol wneud y canlynol:
   - Parhau i ddarparu addysg o ansawdd uchel
   - Diogelu buddiannau myfyrwyr mewn cyfnodau o aflonyddwch neu newid sefydliadol
   - Bod ag ymagwedd deg a thryloyw at newidiadau i’r campws neu raglenni

5. Bydd y Brifysgol yn hysbysu MEDR am unrhyw newidiadau perthnasol sy'n effeithio ar y ddarpariaeth neu ddichonoldeb sefydliadol.

6. Mae strwythurau llywodraethu'r Brifysgol (y Cyngor, y Senedd, y Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) yn goruwchwylio’r Safonau Academaidd a’r Profiad Myfyrwyr.

7. Mae'r Pwyllgor Risg Strategol yn gyfrifol am oruchwylio'r gofrestr risg gorfforaethol, gan gynnwys monitro risgiau sy'n gysylltiedig ag ailstrwythuro.

## Egwyddorion

8. Mae’r Brifysgol wedi ymrwymo i'r canlynol:

- blaenoriaethu parhad ac ansawdd dysgu myfyrwyr;
- lleihau unrhyw darfu ar astudiaethau myfyrwyr a’u cyfeirio at gefnogaeth;
- cyfathrebu'n gynnar ac yn dryloyw â myfyrwyr ynghylch unrhyw newidiadau, gan gynnwys cydweithio ag Undeb Myfyrwyr Bangor i sicrhau tryloywder a bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed;
- ymgynghori’n ystyrlon â myfyrwyr a staff;
- darparu cyfleoedd dysgu cyfatebol neu drefniadau amgen;
- cadw ei hymrwymiadau i addysg cyfrwng Cymraeg;
- sicrhau y cedwir at drefniadau contractol gyda sefydliadau partner, yn y Deyrnas Unedig a thramor, yn cynnwys darpariaethau o ran parhad myfyrwyr;
- cynnal gweithdrefnau llywodraethu cryf, monitro ariannol a chynllunio strategol; a
- cydymffurfio â rhwymedigaethau rheoleiddiol o dan reoliadau MEDR.

## Risgiau a Nodwyd a Chamau Lliniaru

9. Mae'r Brifysgol wedi asesu risgiau posibl i barhad astudiaethau, ac maent yn cael eu monitro drwy'r Pwyllgor Risg Strategol a'r adolygiad parhaus o'r cynllun hwn i liniaru eu heffaith bosibl.

Tabl 1: Risgiau a Nodwyd a Chamau Lliniaru

| Risg | Myfyriwr yr Effeithir Arnynt | Ymateb a Chamau Lliniaru |
|---|---|---|
| Cau'r rhaglen | Pob myfyriwr | Dirwyn addysgu i ben<br>Dewisiadau trosglwyddo<br>Cefnogaeth academaidd bersonol |
| Newid i’r campws neu'r dull cyflwyno | Dysgu ar y campws, dysgu hybrid a dysgu o bell | Cefnogaeth dysgu o bell/adleoli<br>Mynediad hyblyg at gyfleusterau |
| Terfynu neu ohirio cytundeb cydweithredol | Myfyrwyr partneriaethau’r Deyrnas Unedig/Tramor | Trosglwyddo i Fangor neu i bartner cyflenwi arall neu drwy ddysgu o bell<br>Parhau i astudio lle bo modd |
| Gostyngiad yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Myfyrwyr sy’n siarad Cymraeg | Cynnal modiwlau allweddol |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cadw mewn cyswllt â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| Newidiadau staff yn effeithio ar oruchwyliaeth | Myfyrwyr israddedig/ôl-radd hyfforddedig a myfyrwyr ôl-radd ymchwil | Ailbennu goruchwyliwr<br>Cefnogaeth trwy fentora |
| Ansefydlogrwydd ariannol neu ailstrwythuro sefydliadol | Pob myfyriwr | Fframwaith risg a reolir<br>Cyfathrebu â rhanddeiliaid<br>Sicrwydd allanol drwy MEDR |
| Sefydliad yn cau neu ansolfedd sefydliadol | Pob myfyriwr | Gweithredu cynlluniau wrth gefn ar lefel sefydliadol<br>Gweithio gyda MEDR a rhanddeiliaid perthnasol i hwyluso'r broses o drosglwyddo myfyrwyr neu ddirwyn addysgu i ben<br>Anrhydeddu ymrwymiadau i addysg cyfrwng Cymraeg a grwpiau gwarchodedig |

**Cefnogaeth i Fyfyrwyr yr Effeithir Arnynt gan Newid**

10. Bydd myfyrwyr yr effeithir arnynt gan unrhyw newid yn cael cynnig y canlynol:
    - cyngor academaidd wedi'i deilwra a chynllunio cynnydd, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, dirwyn addysgu i ben er mwyn i fyfyrwyr allu cwblhau eu rhaglen, neu roi cymorth iddynt i drosglwyddo i raglen arall ym Mhrifysgol Bangor neu drwy ddarparwr arall;
    - cefnogaeth academaidd, cefnogaeth fugeiliol a chefnogaeth llesiant;
    - cefnogaeth ariannol mewn achosion penodol (e.e., costau teithio ar gyfer trosglwyddiadau)
    - amserlenni a dogfennaeth glir yn amlinellu opsiynau;
    - cynnal mynediad at weithdrefnau cwyno ac apelio;

11. Darperir cefnogaeth yn deg i fyfyrwyr y Deyrnas Unedig a myfyrwyr tramor, ac i'r rhai sy'n astudio gyda phartneriaid y Brifysgol.

**Cyfathrebu ac Adolygu**

12. Bydd y Cynllun Diogelu Myfyrwyr yn:

- cael ei fonitro gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, gyda goruchwyliaeth gan y Cyngor a'r Senedd;
- cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac ar gael i bob myfyriwr;
- cael ei adolygu'n flynyddol mewn ymgynghoriad â myfyrwyr, cynrychiolwyr myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr; ac yn
- cael ei ddiweddaru'n brydlon mewn ymateb i newidiadau sylweddol mewn risg sefydliadol neu i adlewyrchu newidiadau mewn gofynion rheoleiddio.

**Yr Ymrwymiad i'r Gymraeg**

13. Yn unol â Safonau’r Gymraeg ac egwyddorion addysg ddwyieithog MEDR, bydd Prifysgol Bangor yn gwneud y canlynol:
    - amddiffyn a chefnogi hawl myfyrwyr i astudio yn y Gymraeg;
    - sicrhau nad yw newidiadau i raglenni yn effeithio’n anghymesur ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
    - sicrhau bod myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn derbyn gohebiaeth a chefnogaeth yn eu dewis iaith; ac
    - ymgynghori â’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chyrff perthnasol eraill pan fydd newidiadau’n effeithio ar lwybrau cyfrwng Cymraeg.

**Pwyntiau Cyswllt i Fyfyrwyr**

14. Gall myfyrwyr a allai gael eu heffeithio gan newidiadau sylweddol i ddarpariaeth rhaglenni, strwythur rhaglenni, neu statws sefydliadol gysylltu â’r canlynol:
    - Marchnata, recriwtio a chyfathrebu: marchnata@bangor.ac.uk
    - Undeb Bangor (Undeb Myfyrwyr Bangor): su@bangor.ac.uk
    - Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol: secretary@bangor.ac.uk
    - Canolfan Addysg Ryngwladol: ar gyfer myfyrwyr sy’n astudio rhaglenni tramor, international@bangor.ac.uk
    - Swyddfa Darpariaeth Gydweithredol: partnerships@bangor.ac.uk

**Atodiad 1: Newidiadau materol**

Diffinnir gwybodaeth faterol am y rhaglen fel y wybodaeth sydd ar gael ar gofnod perthnasol y rhaglen ar wefan Prifysgol Bangor.

O dan ddeddfwriaeth yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), mae'n rhaid cyfleu unrhyw newidiadau sylweddol i raglenni i'r myfyrwyr yr effeithir arnynt, a rhaid iddynt gytuno â nhw. Mae newidiadau materol i raglenni yn cynnwys y canlynol;

- Newidiadau i deitl y rhaglen
- Newidiadau i fodiwlau gorfodol (gan gynnwys newid i deitl y modiwl neu newid yn strwythur modiwlau gorfodol y rhaglen).

Nid yw hyn yn cynnwys newidiadau i'r maes llafur, y deilliannau dysgu nac i asesiad y modiwlau oni bai bod hynny'n newid disgrifiad sylfaenol y rhaglen fel y'i nodir yng nghofnod y rhaglen (er enghraifft, ychwanegu arholiadau at raglen a ddisgrifir fel un nad oes ganddi unrhyw newidiadau neu nad oes ganddi newidiadau sylweddol i gynnwys/ffocws rhaglen).

Yn gyffredinol, ni ystyrir modiwlau dewisol yn rhan o'r wybodaeth faterol. Fodd bynnag, gellir ystyried newidiadau sylweddol i ddewisiadau dewisol (yn enwedig lle mae dewis yn cael ei leihau neu fodiwlau'n cael eu tynnu) yn newid materol. Yn yr achosion hynny, bydd Uned Gwella Ansawdd y Brifysgol yn cynghori'r staff a yw ymgynghori â myfyrwyr a/neu ddod i gytundeb yn briodol.

Lle mae'n rhaid gwneud newidiadau, oherwydd newid deddfwriaethol neu os yw cyrff proffesiynol, statudol a rheolaethol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal achrediad, yna nid oes angen cytundeb y myfyriwr. Fodd bynnag, bydd myfyrwyr yn cael gwybod am y newid cyn gynted â phosibl.

**Atodiad 2: Cynllun Templed ar gyfer Dirwyn Addysgu i Ben**

**Canllawiau:** Dylid cytuno ar Gynllun Dirwyn Addysgu i Ben a'i gwblhau, i reoli'r broses o gau'r rhaglen a'r trefniadau dirwyn addysgu i ben. Mae hyn yn dilyn cymeradwyaeth i Gau'r Rhaglen gan Grŵp Cyflawni - Cymeradwyo a Monitro Strategol y Cwricwlwm (CSAMDG) y Brifysgol. Lle mae'r broses yn gymhleth, yn cynnwys cau rhaglen gyda nifer o bartneriaid/rhanddeiliaid neu un neu fwy o gyrsiau (yn achos partner cydweithredol sy'n cyflwyno rhaglenni lluosog a/neu gau partneriaeth), dylid sefydlu Grŵp Rheoli Cau Rhaglenni.

**Adran Un: Gwybodaeth Gyffredinol**

| | |
|---|---|
| **Ysgol:** | *Nodwch enw/enwau'r ysgol(ion) sy'n gyfrifol am y rhaglen* |
| **Enw'r Ysgol arall yr effeithir arni (lle bo'n berthnasol, e.e. Cydanrhydedd):** | |
| **Enw'r Sefydliad(au) Partner (lle bo'n berthnasol):** | *Rhowch yr enw llawn* |
| **Rhaglen(ni):** | *Nodwch y rhaglen/rhaglenni yr effeithir arnynt* |
| **Dyddiad creu cynllun gweithredu:** | *Nodwch y dyddiad pan gytunwyd ar y cynllun (a diweddariadau a amserlenwyd)* |
| **Y sawl sy'n gyfrifol am y cynllun gweithredu:** | *Nodwch eich enw a theitl eich swydd* |

| | |
|---|---|
| **Y dyddiad olaf y gall myfyrwyr ymrestru:** | *Mae'r wybodaeth hon yn bwysig i sicrhau nad oes unrhyw ymrestru pellach yn digwydd ar ôl y cyfnod ymrestru y cytunwyd arno* |

| | |
|---|---|
| **Y dyddiad olaf y disgwylir i fyfyrwyr gwblhau'r rhaglen(ni):** | *Dylid pennu dyddiad pryd y bydd y myfyrwyr olaf yn cwblhau'r rhaglen a phryd y cynhelir y bwrdd arholi olaf (ar gyfer pob cwrs os yw'n wahanol). N.B. Dyddiad cwblhau disgwyliedig i fyfyrwyr rhan amser / derbyniadau ansafonol* |

**Lle mae Prifysgol Bangor yn terfynu'r trefniant cydweithredol (a/neu'r bartneriaeth) gyda'r partner, cwblhewch y wybodaeth ganlynol:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llythyr ffurfiol wedi'i anfon at y Sefydliad Partner:** | Do/Naddo | **Dyddiad anfon:** | | **Enw'r Llofnodwr Gweithredol:** | *Rhaid i bob llythyr terfynu partneriaeth ffurfiol gael ei lofnodi gan yr Is-ganghellor / aelod o'r Bwrdd Gweithredol* |

**Lle mae'r partner yn terfynu'r trefniant cydweithredol (a/neu'r bartneriaeth) gyda'r Brifysgol, cwblhewch y wybodaeth ganlynol:**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llythyr ffurfiol wedi ei dderbyn gan swyddfa'r Is-ganghellor gan y Sefydliad Partner:** *Os bydd y partner yn terfynu'r bartneriaeth, dylent wneud hynny'n ffurfiol yn ysgrifenedig. Cwblhewch y manylion yn yr adran hon.* | Do/Naddo | **Dyddiad Derbyniwyd:** | | | |
| **Llythyr ymateb wedi ei anfon at y Sefydliad Cydweithredol:** *Dylai'r Brifysgol ymateb yn ffurfiol yn ysgrifenedig i'r llythyr a dderbyniwyd gan y partner. Dylid cwblhau'r manylion hyn yma.* | Do/Naddo | **Dyddiad Anfonwyd:** | | **Enw'r Llofnodwr Gweithredol:** | *Rhaid i bob llythyr terfynu partneriaeth ffurfiol gael ei lofnodi gan yr Is-ganghellor / aelod o'r Bwrdd Gweithredol* |

**Adran Dau: Cynllun Gweithredu**

| MEYSYDD I'W HYSTYRIED | | CAMAU GWEITHREDU SYDD EU HANGEN | CYFRIFOLDEB | DYDDIAD (AU) TARGED | CYNNYDD |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | **Cytuno ar gynllun gweithredu a sefydlu Rhaglen/Partneriaeth Grŵp Rheoli Cau (fel bo'n briodol)**<br>*Cytuno ar gynllun gweithredu cau rhaglen (a chyfatebol mewn sefydliad partner ar gyfer darpariaeth gydweithredol) a thargedau a osodwyd ar gyfer diweddariadau cynnydd.* | | | | |
| 2 | **Hysbysiad i'r Uned Gwella Ansawdd, y Gofrestrfa, Gwasanaethau Digidol, Derbyniadau, Marchnata a Chyfathrebu, Cynllunio, a Chyllid,**<br>*Dylid hysbysu adrannau perthnasol y Brifysgol am unrhyw gau a dyddiadau cwblhau disgwyliedig. Cytuno pwy fydd yn gyfrifol am y cyfathrebu parhaus ynghylch cau gyda'r adrannau hyn.* | | | | |
| 3 | **Cau'r broses recriwtio a chael gwared ar ddeunyddiau cyhoeddusrwydd cysylltiedig**<br>*Sicrhau fod y Brifysgol (a'r sefydliad partner) wedi dod â gweithgarwch recriwtio i ben ac wedi tynnu'r cwrs/cyrsiau o UCAS a deunyddiau hyrwyddo eraill, gwefannau, ac ati.* | | | | |
| 4 | **Hysbysu a chyfathrebu ag ymgeiswyr**<br>*Mae'n hanfodol bod ymgeiswyr, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael cynnig lle ar gwrs ond heb ei dderbyn eto, y rhai sydd wedi cael cynigion gohiriedig a'r rhai sydd wedi derbyn lle ond heb gofrestru eto, yn cael gwybod am gau'r cwrs a'r opsiynau sydd ar gael iddynt. Gallai hynny gynnwys cwrs amgen neu gadarnhad o'u penderfyniad i ryddhau eu lle ar Raglen Prifysgol Bangor.* | | | | |
| 5 | **Hysbysu a chyfathrebu â myfyrwyr**<br>*Rhaid rhoi gwybod i fyfyrwyr am unrhyw newidiadau a allai effeithio arnynt mewn perthynas â chau cyrsiau a dylai cynrychiolwyr myfyrwyr fod yn rhan o gynllunio a rheoli'r broses o gau cyrsiau. Gall hyn gynnwys trefniadau ar gyfer addysgu a goruchwylio, cefnogaeth ar gyfer lleoliadau/Dysgu Seiliedig ar Waith, gofynion Cyrff Proffesiynol,* | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Statudol a Rheolaethol, ailasesu a chynlluniau ar gyfer modiwlau ailsefyll ac ar gyfer myfyrwyr sydd wedi tynnu'n ôl dros dro.*<br>*Dylid hysbysu myfyrwyr mewn cyfarfod fel y gellir rhoi sicrwydd iddynt am drefniadau i sicrhau ansawdd eu profiadau drwy'r cyfnod o ddirwyn cwrs i ben, gofyn cwestiynau, codi unrhyw bryderon yn ogystal â derbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r trefniadau os oes angen.*<br>*Mae'n bwysig cytuno pwy fydd â'r cyfrifoldeb am gyfathrebu, yn enwedig ar gyfer cyrsiau Cydanrhydedd a'r rhai a gyflwynir mewn partneriaeth. Dylai unigolion yn y Brifysgol a, lle bo'n berthnasol, y partner gytuno ar unrhyw ohebiaeth â myfyrwyr neu a anfonir at fyfyrwyr ar gyfer darpariaeth gydweithredol.* | | | | |
| 6 | **Cynnydd myfyrwyr, tynnu'n ôl dros dro, atgyfeirio a myfyrwyr sy'n ailsefyll**<br>*Cadarnhad o nifer y myfyrwyr presennol a'r dulliau astudio ar bob rhaglen/carfan a'r dyddiadau cwblhau disgwyliedig. Rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cael atgyfeiriadau a chytuno ar drefniadau ar gyfer myfyrwyr a fydd angen ailsefyll o bosibl, a myfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro. Ni ddylai myfyrwyr fod dan anfantais oherwydd y cau a dylai'r trefniadau ystyried eu hanghenion yn llawn.* | | | | |
| 7 | **Byrddau Arholi**<br>*Cadarnhau trefniadau ar gyfer marcio, cymedroli a phresenoldeb mewn byrddau arholi. Cytuno ar amseru byrddau pwnc/arholi gan gynnwys cynllun i reoli myfyrwyr sydd wedi cael atgyfeiriadau, myfyrwyr sy'n ailsefyll neu sydd wedi tynnu'n ôl dros dro. N.B. Gweler yr Atodiad i'r Polisi Asesu ynghylch camau gweithredu posibl os bydd yn rhaid ailsefyll modiwlau pan nad yw'r modiwlau'n rhedeg.* | | | | |
| 8 | **Penodiadau Arholwyr Allanol**<br>*Gwirio gyda'r Uned Gwella Ansawdd nad yw contractau Arholwyr Allanol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen(ni) yn gorffen cyn diwedd disgwyliedig y cwrs.  Efallai y bydd angen, ar y cyd â'r Uned Gwella Ansawdd, adolygu ac ymestyn contract, neu benodi arholwyr allanol newydd er mwyn gorffen y gwaith o ddod â'r rhaglen i ben.*<br>*Rhaid i Arholwyr Allanol gael gwybod gan yr Uned Gwella Ansawdd am gau'r rhaglen(ni) a'r trefniadau a wnaed i fyfyrwyr gwblhau, yn enwedig os yw hyn yn amrywio o'r arfer.* | | | | |
| 9 | **Cymeradwyo ac adolygu rhaglen(ni)**<br>*Gwirio gyda'r Uned Gwella Ansawdd fod y cwrs yn parhau i fod wedi'i gymeradwyo hyd nes y bydd wedi dod i ben neu, os nad ydyw, cytunwch ar drefniadau gyda'r Uned Gwella Ansawdd.* | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 10 | **Rheoli a chyflwyno rhaglenni**<br>*Ceisio a darparu sicrwydd y gellir cyflwyno'r cwrs fel y'i cymeradwywyd nes bod y myfyrwyr olaf sydd wedi cofrestru ar y cwrs wedi'i gwblhau. Lle ystyrir bod hynny mewn perygl, cytunwch ar drefniadau amgen i sicrhau profiad y myfyrwyr gyda'r Dirprwy Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr a'r Cofrestrydd Academaidd ac ymgynghori â myfyrwyr cyn cytuno'n derfynol.* | | | | |
| 11 | **Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol**<br>*Os oes unrhyw gyrff proffesiynol yn gysylltiedig â'r cwrs, dylid rhoi gwybod iddynt fod y cwrs yn dirwyn i ben a dylid ystyried eu cyngor. Cytuno pwy fydd yn cyfathrebu â'r Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol.* | | | | |
| 12 | **Cyfathrebu â rhanddeiliaid eraill ac adrannau perthnasol y Brifysgol (a sefydliadau partner)**<br>*Gallai hynny gynnwys: y Llyfrgell, Gwasanaethau Digidol, Llesiant, Cefnogi Myfyrwyr a gwasanaethau dysgu eraill, adrannau gwasanaethau myfyrwyr.* | | | | |
| | **YSTYRIAETHAU YCHWANEGOL AR GYFER DARPARIAETH GYDWEITHREDOL** | | | | |
| 13 | **Llythyr ffurfiol at y sefydliad cydweithredol (os nad yw eisoes wedi'i anfon/neu ei dderbyn a'i gydnabod)**<br>*Os nad yw llythyr ffurfiol wedi'i anfon ond bod y penderfyniad wedi'i wneud i gau'r bartneriaeth neu raglen benodol mewn partner cydweithredol, nodwch yma pwy fydd yn ysgrifennu'r llythyr, pwy fydd yn llofnodi'r llythyr a phryd y bydd y llythyr yn cael ei ysgrifennu.*<br>*Pan fo partner wedi penderfynu terfynu, rhaid nodi'r un wybodaeth yma mewn perthynas â'r llythyr terfynu gan y partner, a'r gydnabyddiaeth ffurfiol o'r terfyniad gan y Brifysgol.* | | | | |
| 14 | **Cytundeb Partneriaeth**<br>*Os yw'r Cytundeb Partneriaeth ar fin dod i ben cyn i'r myfyrwyr gwblhau, yna rhaid ystyried cytundeb dros dro neu newid i'r cytundeb presennol i ddiogelu profiad y myfyrwyr. Trafodwch gyda'r Uned Gwella Ansawdd a'r Ganolfan Addysg Ryngwladol.*<br>*Dim ond pan fydd y myfyriwr olaf yn cwblhau ei raglen y gall y Cytundeb ddod i ben, pan nad oes unrhyw atgyfeiriadau ar ôl na myfyrwyr angen ailsefyll a bod trefniadau 'dirwyn addysgu i ben' wedi'u cytuno.* | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 15 | **Cyhoeddiadau a Gwefannau'r Brifysgol a Phartneriaid**<br>*Pan fydd pob myfyriwr wedi cwblhau, gwnewch yn siŵr bod pob cyfeiriad at y Brifysgol mewn deunyddiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yn cael ei ddileu o wybodaeth gyhoeddus partneriaid, gan gynnwys copïau caled a gwybodaeth ar y we (ac i'r gwrthwyneb mewn cyhoeddiadau'r Brifysgol, gan gynnwys manylebau rhaglenni, prosbectws, gwefan).*<br>*Lle mae'r bartneriaeth wedi cau, bydd y sefydliad partner yn cael ei ddileu o holl wybodaeth gyhoeddus berthnasol y Brifysgol.* | | | | |
| 16 | **Eiddo Deallusol**<br>*Rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus i gymalau'r cytundebau sy'n ymwneud ag eiddo deallusol a chadarnhau hawliau.* | | | | |
| 17 | **Materion hawlfraint**<br>*Dylid ystyried unrhyw faterion hawlfraint ar gyfer y rhaglen a weithredir gan y partner.* | | | | |
| 18 | **Diogelu Data**<br>*Ystyriwch ddarparu data myfyrwyr mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data, cyn cytuno i drosglwyddo cofnodion myfyrwyr ac ati.* | | | | |

## Adran Tri: Sylwebaeth ar y Cau

| | |
|---|---|
| **Gwersi a Ddysgwyd** | *Cwblhewch yr adran hon wrth i'r rhaglen ddirwyn i ben neu pan fydd y gwaith o ddirwyn y rhaglen i ben wedi'i gwblhau; bydd y cynlluniau gweithredu cau yn cael eu hadolygu a'u monitro gan y Grŵp Cyflawni - Sicrhau Ansawdd y Cwricwlwm a chan Ysgolion. Bydd unrhyw wybodaeth a all gynorthwyo cydweithwyr yn y dyfodol yn cael ei hadolygu a'i defnyddio fel canllawiau.* |

| | |
|---|---|
| **Mwy o wybodaeth / sylwadau** | *Cwblhewch, fel y teimlwch yn briodol. Dylid defnyddio'r adran hon i gloi'r cynllun gweithredu ar ôl i'r cydweithio ddod i ben.* |